# Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

**334 – Beirniadaeth Barddoniaeth dan 25 oed (Englyn)**
**Beirniad: Caryl Bryn**

Daeth pump englyn i law yn y gystadleuaeth hon a'r englynion yn amrywio o englyn syml i Nain at englyn dwys a dyrys *i'r rhai dienw sydd byth yn cyrraedd pen draw'r môr i Brydain.* O'r darlleniad cyntaf bu i 'Englyn i Nain' gan *Llywela* fy nharo i am ei anffurfioldeb tyner. Er ambell gamgymeriad gramadegol a chynganeddol mae llinell gyntaf yr esgyll 'oesol siriol fel seren' yn hynod o annwyl.

Mae englyn *Elfan* sydd yn disgrifio tŷ ar werth fel 'cartref gau, cartref y gaeaf' yn gryf iawn yn gynganeddol ond yn colli'i hystyr weithiau oherwydd ei fod yn cael ei gyfyngu gan y gynghanedd. *Pont* gan *Tegwen* ydi'r englyn dwysaf a dyma fardd mwyaf mentrus y gystadleuaeth ond mae gwallau cynganeddol i'r enlyn sydd yn amharu ar fwynhad darllenydd sydd yn wirioneddol anffodus.

Mae *Llwynog* ac *Awen* yn amlwg yn brysur wrthi'n perffeithio'r grefft o gynganeddu ac mae tueddiad i gymysgu rhwng odl a chynganedd weithiau ond er hyn mae cyffyrddiadau hyfryd yn y ddau englyn ac mae angen i bob cystadleuydd barhau i berffeithio'r grefft.

Yn drydydd mae *Tegwen* am fod yn fentrus ac ysgrifennu am thema ddwys ar gynghanedd. Yn ail mae Elfan am ei sylw craff i'r gynghanedd ac yn gyntaf, *Llywela* am ei hanwyldeb a'r anffurfioldeb annwyl ac am beidio â phlygu ei llais yn ormodol i ateb gofynion y gynghanedd. Mae amrywiaeth cynganeddol er yr anffurfioldeb – rwy'n annog y bardd i barhau i fod yn driw i'w lais ei hun a mentro gyda mesuriadau gwahanol gan y byddai llais y bardd hwn yn siwtio hir a thoddaid i'r dim.

1af - Llywela Edwards 2il - Tesni Peers 3ydd - Tegwen Bruce-Deans